Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD

**Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

Dydd Iau, 28 Gorffennaf 2016 at 2.00 pm
Bodlondeb, Conwy

# RHAGLEN

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

2. **Datgan cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**

   Caiff yr Aelodau eu hatgoffa bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth** a **natur** eu cysylltiadau personol.

3. **Materion Brys**

   Rhybudd o faterion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys.

4. **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd**

5. **Gwrandawiad Cadarnhau ar gyfer Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd** (Tudalennau 1 - 14)

6. **Dyddiad y cyfarfod nesaf:**

   Dydd Llun, 19 Medi 2016 @ 2.00 pm.

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Aelodau'r Panel**

| | |
|---|---|
| Cyng Brian Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng Glenys Diskin | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Philip C. Evans Y.H. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng David Griffiths | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Julie Fallon (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng William T. Hughes | Cyngor Sir Ynys Mon |
| Cyng Bernie McCann | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Dilwyn Morgan | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Neville Phillips OBE Y.H. | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Gethin Williams | Cyngor Gwynedd |
| | |
| Patricia Astbury (Is-Gadeirydd) | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| Timothy Rhodes | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |

Sylwer: mae'n bosibl y bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw neu'n ddiweddarach ar wefan Panel yr Heddlu a Throsedd - ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfarfod cyfan neu ran ohono'n cael ei ffilmio. Gallai'r lluniau a'r recordiad sain gael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi.

Yn gyffredinol, nid yw'r mannau eistedd cyhoeddus yn cael eu ffilmio. Fodd bynnag, drwy fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r mannau eistedd cyhoeddus, rydych yn cydsynio i gael eich ffilmio a'r posibilrwydd y bydd y lluniau a'r recordiadau sain hynny'n cael eu defnyddio at ddibenion gweddarlledu a / neu hyfforddiant.

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

Cynghorydd Julie Fallon
Cadeirydd
Panel Heddlu a Throsedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Bodlondeb
Conwy LL32 8DU

Ein Cyf / Our Ref: AJ/mm

21 Gorffennaf 2016

Annwyl Gynghorydd Fallon

**Gwrandawiad Cadarnhau Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd**

Yn unol â Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 mae'n ofynnol i mi geisio sêl bendith y Panel Heddlu a Throsedd ynghylch unigolyn a enwebir i fod yn Ddirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd ardal blismona gogledd Cymru.

Yr wyf felly'n ysgrifennu i'ch hysbysu ynghylch fy enwebiad i'r swydd statudol hon. Fy argymhelliad yw bod Eleanor Ann Griffith yn cael ei phenodi'n Ddirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Buaswn yn ddiolchgar pe gallai'r Panel Heddlu a Throsedd ystyried fy argymhelliad mewn Gwrandawiad Cadarnhau a rhoi gwybod i mi a yw'r panel yn cymeradwyo fy argymhelliad ai peidio.

Mae adroddiad llawn ynghlwm er ystyriaeth y Panel.

Diolch yn fawr.

Yn gywir

Arfon Jones
Comisiynydd Heddlu a Throsedd


Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW
Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW
Ffôn / Tel: 01492 805486
Ebost / Email: OPCC@nthwales.pnn.police.uk
Ffacs / Fax: 01492 805489

**Gwrandawiad Cadarnhau**

**28 Gorffennaf 2016**

**Penodi Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd**

**Adroddiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 ( "y Ddeddf") yn gofyn i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ( "y Comisiynydd") i geisio argymhelliad Panel yr Heddlu a Throsedd ( "y Panel") o’r person a enwebwyd i fod yn Ddirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer ardal heddlu Gogledd Cymru.

## 2. ARGYMHELLION

2.1 Argymhellir bod y Panel yn cymeradwyo penodi Eleanor Ann Griffith a elwir yn Ann Griffith fel y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd.

## 3. CEFNDIR

3.1 Mae'r Ddeddf yn darparu, o dan adran 18(1), bod modd i’r Comisiynydd ar gyfer ardal heddlu i benodi person yn Ddirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer yr ardal honno.

3.2 O dan Atodlen 1, paragraff 9 o'r Ddeddf, rhaid i'r Comisiynydd roi gwybod i'r Panel am ei benodiad arfaethedig i’r swydd Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd.

3.3 Rhaid i'r Comisiynydd hefyd roi gwybod i'r Panel am y wybodaeth ganlynol:

3.3.1 Enw'r person y mae'n bwriadu ei benodi;

3.3.2 Y meini prawf a ddefnyddir i asesu addasrwydd yr ymgeisydd ar gyfer y penodiad;

3.3.3 Pam fod yr ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf hynny; ac

3.3.4 Y telerau a’r amodau y mae'r ymgeisydd i gael ei benodi

3.4 O dan baragraff 10 o Atodlen 1, rhaid i'r Panel adolygu'r penodiad arfaethedig gan wneud adroddiad i'r Comisiynydd ar y penodiad arfaethedig, gan gynnwys argymhelliad i'r Comisiynydd ynghylch a ddylai'r ymgeisydd gael ei benodi, o fewn cyfnod o dair wythnos gan ddechrau gyda'r diwrnod y mae'r Panel yn cael hysbysiad gan y Comisiynydd o’r penodiad arfaethedig.

3.5 Mae'r penodiad hwn yn dod o dan Atodlen 1 y Ddeddf, ac felly nid oes gan y Panel unrhyw bŵer i wneud pleidlais atal ar gyfer y penodiad. Os bydd y Panel yn argymell nad yw'r penodiad yn mynd yn ei flaen; gall y Comisiynydd barhau i benodi'r ymgeisydd arfaethedig.

3.6 Bydd y Comisiynydd yn rhoi gwybod i'r Panel am y penderfyniad, p'un ai i dderbyn neu wrthod argymhelliad y Panel.

## 4. Materion i'w hystyried

### 4.1 Enw'r Ymgeisydd

Enw'r person y mae'r Comisiynydd yn bwriadu ei phenodi i swydd Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yw Eleanor Ann Griffith, a elwir yn Ann Griffith.

### 4.2 Y meini prawf a ddefnyddir i asesu addasrwydd yr ymgeisydd ar gyfer y penodiad

4.2.1 Mae'r Comisiynydd yn cydnabod fod ei dyletswyddau statudol yn arwyddocaol ac mai ef yw'r person sy'n gyfan gwbl gyfrifol am eu rhyddhau. O ganlyniad mae’n dymuno penodi dirprwy a all roi cymorth ychwanegol iddo, ond yn enwedig rhywun sydd â:

a) Lefel uchel o onestrwydd a rhywun y gall y Comisiynydd ymddiried ynddynt yn llwyr
b) Dealltwriaeth a phrofiad o ymgysylltu â grwpiau cymunedol yng Ngogledd Cymru
c) Dealltwriaeth ac ymrwymiad i helpu'r Comisiynydd i gyflawni amcanion ei faniffesto
d) Gwerthoedd a rennir mewn perthynas â rôl a phwrpas gwasanaeth yr heddlu a'i atebolrwydd
e) Cyd-ddealltwriaeth i beidio ag ymyrryd yng ngweithrediad annibynnol yr heddlu
f) Dealltwriaeth a phrofiad o weithio yn y sector cyhoeddus, heb gynnwys gwasanaeth yr heddlu, er mwyn ehangu sgiliau o fewn Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

4.2.2 Mae maniffesto'r Comisiynydd yn rhoi pwyslais mawr ar fynd i'r afael â throsedd ieuenctid ac i beidio â throseddoli pobl ddiamddiffyn, felly byddai profiad Ann fel uwch weithiwr cymdeithasol yn ei darparu â'r sgiliau angenrheidiol i gynorthwyo'r Comisiynydd wrth gyflawni ei flaenoriaethau.

4.2.3 Mae gan Ann dros ddeng mlynedd ar hugain o brofiad fel gweithiwr cymdeithasol gyda phob grwpiau cleientiaid. Mae wedi gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru yn ymchwilio cam-drin ac esgeuluso plant, asesu iechyd meddwl oedolion a chyfiawnder ieuenctid.

4.2.4 Mae gan Ann 8 mlynedd o brofiad fel Apwyntai Cyhoeddus i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ei rôl fel Ymwelydd i'r Llys Gwarchod a Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Yn y rôl hon, bu'n gweithio gydag oedolion sydd wedi colli eu galluedd meddyliol oherwydd dementia, anaf i'r ymennydd a salwch meddwl.

4.2.5 Mae ganddi brofiad rheoli gweithredol a strategol helaeth o fewn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol ac mae hefyd wedi gweithio ar y cyd yng Ngogledd Cymru yn datblygu perthnasoedd rhwydweithio aml-asiantaeth ardderchog.

4.2.6 Fel aelod etholedig mae gan Ann ddealltwriaeth dda o weithio mewn partneriaeth. Bydd aelodau'r panel yn ymwybodol o'r pwysigrwydd o weithio mewn partneriaeth effeithiol o fewn y cynllun heddlu a throsedd.

4.2.7 Hefyd fel aelod etholedig mae hi wedi dangos hyfedredd o ran craffu ac i wneud y Cabinet i gymryd cyfrifoldeb, ymgysylltu â'r etholwyr, eirioli ar eu rhan a gwneud penderfyniadau anodd.

4.2.8 Mae Ann yn byw yng Ngogledd Orllewin Cymru ar Ynys Môn ac yn siarad Cymraeg yn rhugl. Bydd penodi dirprwy o ochr arall ardal yr Heddlu yn darparu cydbwysedd i’w rolau o ran rhyw a daeryddiaeth.

4.2.9 Mae'r Comisiynydd yn fodlon y bydd sgiliau, profiad, rhyw a chefndir Ann yn ategu ei hun; mae ganddi brofiad helaeth ac addas a dealltwriaeth lawn o'r rôl.

4.2.10 Mae Ann Griffith wedi darparu crynodeb llawn o’i gyrfa i’r Comisiynydd.

4.2.11 Mae'r Comisiynydd yn hyderus y gall ef ac Ann gydweithio'n dda i gyflawni dyletswyddau statudol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

4.3 **Telerau ac Amodau Penodiad**

4.3.1 Bydd y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd yn aelod staff o Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae copi o'r disgrifiad swydd, manyleb person a thelerau ac amodau ynghlwm.

**5. Camau nesaf**

5.1 Bydd y Panel yn cynghori’r Comisiynydd o'i argymhelliad ac yn cyhoeddi ei benderfyniad.

**6. Dogfennau cefndir**

6.1 **Police Reform and Social Responsibility Act 2011 (Hyperlink)**

6.2 Disgrifiad swydd, manyleb person a thelerau ac amodau (ynghlwm)

## Disgrifiad swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl Swydd:** | Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd (Dirprwy) |
| **Cyflog:** | Graddfa PO(D). Swydd llawn amser (bydd gwaith rhan amser yn cael ei addasu yn ôl pro rata). |
| **Treuliau:** | Cyfraddau Statudol wedi’u pennu gan yr Ysgrifennydd Cartref |
| **Yn atebol i:** | Comisiynydd Heddlu a Throsedd (Y Comisiynydd) |
| **Oriau:** | Rhan-amser o fis Awst 2016 ac yn llawn-amser o fis Mai 2017. Oherwydd natur y rôl, disgwylir y cynhelir cyfran o ddyletswyddau gyda'r nos ac ar benwythnosau lle nad oes ad-daliad ychwanegol yn cael ei ddarparu. |
| **Lleoliad:** | Pencadlys yr Heddlu, Glan-Y-Don, Bae Colwyn, LL29 8AW |
| **Teithio:** | Teithio helaeth yng Ngogledd Cymru ac i rannau eraill o Gymru a Lloegr ar adegau eraill, felly mae trwydded yrru yn hanfodol |
| **Yr Iaith Gymraeg:** | Y gallu i gyfathrebu’n effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddymunol |
| **Cod Ymddygiad:** | **See Appendix A** |
| **Dyletswyddau Statudol:** | **See Appendix B** |
| **Meini prawf cymhwysedd ac anghymwyso:** | **See Appendix C** |

## Crynodeb o'r swydd

- Bydd y Dirprwy yn gyfrifol am gefnogi'r Comisiynydd ym mhob agwedd o’i rôl
- Gweithio gyda'r Comisiynydd er mwyn gallu cyflawni’r Cynllun Heddlu a Throsedd
- Rheoli'r prosiect ymgysylltu â'r gymuned ar ran y Comisiynydd
- I ymgysylltu a gofyn am farn a phryderon pobl Gogledd Cymru
- Cyfleu y safbwyntiau hyn i'r Comisiynydd a'i staff i sicrhau eu bod yn cael eu hadlewyrchu yng ngwaith y Comisiynydd

## Trosolwg o'r rôl

Mae Deddf Diwygio'r Heddluoedd a Hybu Cyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn galluogi'r Comisiynydd i benodi Dirprwy ac i ddirprwyo swyddogaethau a chyfrifoldebau penodol i'r person hwnnw. Mae'r Ddeddf hefyd yn amlinellu swyddogaethau penodol na ellir eu dirprwyo.

Rôl y Dirprwy, wrth weithio gyda staff eraill y Comisiynydd, yw i ddirprwyo a chefnogi'r Comisiynydd wrth gyflawni ei swyddogaethau gan gynnwys: -

a. Gweithredu fel cyswllt lleol rhwng cymunedau a'r heddlu

b. Cynorthwyo wrth osod cyllideb a phraesept yr heddlu a phenderfynu sut y mae cyllidebau lleihau trosedd eraill yn cael eu gwario

c. Helpu i ddatblygu'r Cynllun Heddlu a Throsedd

d. Ymrwymo i gytundebau cydweithredu fel y bo angen

e. Dal y prif gwnstabl yn atebol

f. Gweithio ar y cyd gyda phartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol

Ni chaiff y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd:-

a. Gyhoeddi Cynllun Heddlu a Throsedd

b. Pennu amcanion yr heddlu

c. Mynychu cyfarfodydd Panel Heddlu a Throsedd ar ran y Comisiynydd

d. Paratoi'r Adroddiad Blynyddol

e. Penodi neu atal y prif gwnstabl neu alw ar y prif gwnstabl i ymddeol neu ymddiswyddo

f. Gosod y praesept

Am fanylion llawn o ddyletswyddau statudol y Comisiynydd gweler *Atodiad B*

---

## Cyfrifoldebau allweddol

1. Arwain ar ymgysylltu cymunedol ar ran y Comisiynydd, i ymgysylltu â'r holl gymunedau yng Ngogledd Cymru i sicrhau bod eu barn yn cael ei glywed.
2. Bod yn rhagweithiol wrth wella perthnasau ag ystod eang o randdeiliaid yn y sectorau diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol, i nodi rhwystrau neu nodi cyfleoedd i wella'r broses o gyflwyno rhaglenni sy'n sicrhau canlyniadau gwell i bobl leol.
3. Arwain mentrau ar y cyd gyda phartneriaid a rhanddeiliaid lleol i leihau trosedd a gwella plismona cymunedol.
4. Sicrhau ansawdd y ddarpariaeth o wasanaethau plismona yng Ngogledd Cymru a chefnogi'r Comisiynydd wrth graffu ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd plismona yng Ngogledd Cymru.

5. Gweithredu fel llysgennad i'r Comisiynydd ac ymgysylltu â grwpiau cymunedol perthnasol, cyrff cyhoeddus, cynrychiolwyr etholedig a sefydliadau i ddeall anghenion plismona yn y gymuned yn well.
6. I gefnogi'r Comisiynydd wrth sicrhau bod anghenion y gymuned yn cael eu cynrychioli mewn plismona a lle y bo'n briodol yn cyfieithu anghenion y gymuned i weithredoedd a chanlyniadau cyfreithlon.
7. Helpu i roi aelodau Seneddol, aelodau o Lywodraeth Cymru, cynghorwyr, swyddogion y llywodraeth a phartneriaid gwirfoddol a chyfiawnder troseddol eraill ar ben ffordd ynghylch polisi y Comisiynydd.
8. Cynrychioli barn awdurdodedig y Comisiynydd i'r cyfryngau lle bo'n briodol.
9. Ar ran y Comisiynydd, helpu i greu cynigion polisi ac ymateb i ddatblygiadau polisi cenedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd eraill yng Nghymru a Lloegr.
10. Cynorthwyo'r Comisiynydd wrth gysylltu â phrif gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a'i staff a chyfathrebu â sefydliadau ac unigolion ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol.

Rhaid i ddeiliad y swydd fod yn barod i ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol sy'n deillio o amgylchiadau newidiol ond nid ydynt yn newid natur na lefel cyfrifoldeb y swydd yn gyffredinol.

---

## Manylion am yr Unigolyn

**Nodweddion personol - barn y Comisiynydd**

Rwy'n edrych am rywun y gallaf ymddiried yn llwyr ynddynt, rhywun y gallaf ddibynnu arnynt a rhywun sydd â gonestrwydd a barn dda. Rwy'n edrych am rai neu bob un o'r nodweddion canlynol:

- Gallu gwrando ar bobl a'u sicrhau y bydd eu barn yn cael ei glywed
- Ymdeimlad cryf o annibyniaeth
- Gweledigaeth a'r gallu i feddwl yn strategol ac yn ochrol
- Sgiliau arwain a rheoli
- Y gallu i reoli newid ac i dorri tir newydd
- Gallu rhoi cyflwyniadau a chyfweliadau i'r cyfryngau
- Dealltwriaeth a gwybodaeth dda o faterion cyfoes

**Profiad a chymwysterau**

- Dealltwriaeth a phrofiad gwych o natur ddaearyddol, cymdeithasol ac economaidd amrywiol yr ardal
- Profiad amlwg o weithio gyda chymunedau amrywiol a gweithio i sicrhau canlyniadau gwell i bobl leol
- Addysg hyd at lefel gradd neu gymhwyster proffesiynol/arbenigol cyfatebol neu brofiad, sy'n dangos eu gallu deallusol i weithredu o fewn rôl cymhleth
- Dealltwriaeth dda a phrofiad o ymdrin â heriau sefydliadol er mwyn sicrhau bod y cydbwysedd cywir rhwng cost a gwerth mewn amgylchedd o leihau adnoddau
- Profiad o lywodraethu sefydliadol a chraffu, gyda dealltwriaeth dda o atebolrwydd
- Profiad o weithio ar draws gwahanol asiantaethau ar lefelau strategol a gweithredol
- Profiad o roi amcanion strategol ar waith

**Sgiliau - Hanfodol**

- Sgiliau cyfathrebu a chyflwyno o lefel uchel
- Y gallu i ymgysylltu, gwrando a deall cymunedau ag anghenion gwahanol
- Y gallu i gyflawni ar weledigaeth a nodau strategol
- Y gallu i gymryd ymagwedd gydweithredol wrth gyflawni blaenoriaethau, gan gynnwys datblygu cynigion cydweithio effeithiol gyda sefydliadau perthnasol
- Y gallu i feddwl a gweithredu ar lefel strategol, gan nodi problemau a gosod blaenoriaethau ar lefel sefydliad cyfan a/neu dros gyfnod o amser maith
- Y gallu i gynnal perthynas waith dda gyda sefydliadau partner
- Y gallu i adeiladu perthnasau, dylanwadu a thrafod gyda swyddogion o statws uchel
- Agwedd hyblyg i weithio ar benwythnosau a chyda'r nos yn angenrheidiol
- Rhaid byw yn ardal Heddlu Gogledd Cymru
- Tystiolaeth eu bod yn deall strwythurau, gweithdrefnau a pholisïau gwleidyddol ar lefel leol a chenedlaethol
- Lefel dda o gymhwysedd TG
- Gallu gyrru

**Sgiliau - Dymunol**

- Ar gyfer y swydd hon mae’r gallu i gyfathrebu'n effeithiol trwy gyfrwng y Gymraeg yn ddymunol.

**Rhinweddau**

- Yn gallu sicrhau hygrededd, parch a chydnabyddiaeth gan gyfoedion a rhanddeiliaid
- Rhannu dyheadau, gwerthoedd ac ymrwymiadau’r Comisiynydd
- Y gallu a’r hyder i gymryd cyfrifoldeb personol am benderfyniadau a wneir ac i allu cyfathrebu'r rhain yn effeithiol
- Wedi ymrwymo i saith egwyddor bywyd cyhoeddus (*see Appendix A)*

*Atodiad A*

## Cod Ymddygiad

Mae'r Cod Ymddygiad yn golygu y bydd y Comisiynydd a'i Ddirprwy yn cadw at y saith egwyddor a nodir yn y Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus: Adroddiad Cyntaf y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus a elwir yn 'Egwyddorion Nolan'.

**Anhunanoldeb:**

Byddwn yn gwneud penderfyniadau er lles y cyhoedd yn unig. Ni fyddwn yn gwneud penderfyniadau er mwyn elwa yn ariannol neu ennill ddeunyddiau eraill ar gyfer ein hunain, ein teuluoedd, neu ffrindiau.

**Uniondeb:**

Ni fyddwn yn rhoi ein hunain o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall i unigolion neu sefydliadau allanol a all ddylanwadu ar ein perfformiad o ddyletswyddau swyddogol.

**Gwrthrychedd:**

Wrth gyflawni busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrwyon a manteision, byddwn yn gwneud dewisiadau ar sail teilyngdod.

**Atebolrwydd:**

Rydym yn atebol am ein penderfyniadau a'n gweithredoedd i'r cyhoedd ac yn cyflwyno ein hunain i ba bynnag archwiliad sy'n addas i'n swyddfa.

**Bod yn agored:**

Byddwn mor agored â phosibl am bob penderfyniad a'r camau a gymerwn. Byddwn yn rhoi rhesymau dros ein penderfyniadau ac yn cyfyngu ar wybodaeth dim ond pan fo budd ehangach y cyhoedd yn berthnasol.

**Gonestrwydd:**

Mae gennym ddyletswydd i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n ymwneud â'n dyletswyddau cyhoeddus ac i gymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro sy'n codi mewn ffordd sy'n diogelu budd y cyhoedd.

**Arweinyddiaeth:**

Byddwn yn hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy arweinyddiaeth a thrwy esiampl ein hunain.

## Dyletswyddau Statudol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Prif ddyletswydd y Comisiynydd yw sicrhau fod yr heddlu yn effeithlon ac effeithiol, yn dangos gwerth am arian, yn cwrdd ag anghenion cymunedau gogledd Cymru ac yn fwy na dim yn lleihau trosedd.

Bydd yn gwneud hyn trwy:

- wneud y Prif Gwnstabl yn gyfrifol o ddarpariaeth yr heddlu
- llunio a diweddaru’r Cynllun Heddlu a Throsedd
- pennu cyllideb a phraesept yr heddlu
- ymgysylltu'n rheolaidd â'r cyhoedd a chymunedau

Bydd y Comisiynydd yn gosod cyfeiriad. Mae hyn yn cynnwys:

**Gosod cyfeiriad strategol ac atebolrwydd ar gyfer plismona**

- gosod amcanion plismona strategol
- yn gwneud yr heddlu’n gyfrifol drwy'r Prif Gwnstabl
- ymgynghori a chynnwys y cyhoedd
- bod yn atebol i'r etholwyr

**Gweithio gyda phartneriaid i atal a mynd i'r afael â throseddu ac aildroseddu**

- sicrhau bod yr heddlu yn ymateb yn effeithiol i bryderon y cyhoedd a bygythiadau i ddiogelwch y cyhoedd
- hybu a galluogi gweithio cydgysylltiedig ar ddiogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol
- cynyddu hyder y cyhoedd yn y ffordd y mae trosedd yn cael ei leihau a’i blismona

**Galw ar lais y cyhoedd, pobl ddiamddiffyn a dioddefwyr**

- sicrhau bod blaenoriaethau cyhoeddus yn cael eu gweithredu, ymgynghori â dioddefwyr, a bod yr unigolion mwyaf diamddiffyn ddim yn cael eu hanwybyddu
- cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb
- cyfrannu at adnoddau plismona er mwyn ymateb i fygythiadau rhanbarthol a chenedlaethol
- sicrhau cyfraniad plismona effeithiol ochr yn ochr â phartneriaid eraill i drefniadau cenedlaethol i amddiffyn y cyhoedd rhag bygythiadau trawsffiniol eraill yn unol â'r gofyniad plismona strategol

**Sicrhau gwerth am arian**

- bod yn gyfrifol am ddosbarthu grantiau plismona gan y llywodraeth ganolog a gosod praesept a godir drwy dreth y cyngor

# Meini prawf Cymhwysedd ac Anghymwyso

**Detholiad o'r Police Reform and Social Responsibility Act 2011**

**Adran 8 Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd**

Dyfyniadau perthnasol o baragraff 8, Atodlen 1, Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011

8 (1) Mae'r paragraff hwn yn berthnasol i berson a benodir o dan adran 18 gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i fod yn ddirprwy gomisiynydd heddlu a throsedd.

(2) Ni ellir penodi unrhyw un o'r canlynol fel dirprwy gomisiynydd heddlu a throsedd-

a) person nad yw wedi cyrraedd 18 oed ar ddiwrnod yr apwyntiad;
b) person sy'n destun anghymhwysiad perthnasol;
c) Aelod o Dŷ'r Cyffredin
d) Aelod o Senedd Ewrop
e) Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru
f) Aelod o Senedd yr Alban
g) Aelod o Gynulliad Gogledd Iwerddon

(3) Mae telerau ac amodau person sydd wedi'i benodi fel dirprwy gomisiynydd heddlu a throsedd yn gorfod darparu i'r penodiad ddod i ben ddim hwyrach na'r diwrnod pan fydd tymor presennol penodiad y comisiynydd heddlu a throsedd yn dod i ben.

(4) Nid yw Adran 7 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (penodi staff ar deilyngdod) ddim yn berthnasol i'r dirprwy gomisiynydd heddlu a throsedd.

(5) Yn y paragraff hwn mae "tymor presennol yn y swydd", mewn perthynas â phenodi dirprwy comisiynydd heddlu a throsedd gan y comisiynydd heddlu a throsedd, yn golygu tymor swydd y comisiynydd ar yr adeg y gwneir y penodiad.

(6) At ddibenion y paragraff hwn, mae person yn destun anghymhwysiad berthnasol os yw'r person wedi ei anghymhwyso rhag cael ei ethol fel, neu fod, yn gomisiynydd heddlu a throsedd o dan-

a) adran 65(1) (swyddogion yr heddlu, cyflogaeth sy'n gysylltiedig â'r heddlu ac ati), ac eithrio paragraff (e)(ii); neu
b) adran 66(1), 3(a)(iii) neu (iv), 3(c) neu 3(d) (dinasyddiaeth, methdaliad, collfarnau troseddol ac arferion etholiadol llygredig neu anghyfreithlon)

**Adran 65 Anghymhwyso rhag ei ethol neu ddal swydd fel comisiynydd heddlu a throsedd: ar sail yr heddlu**

Dyfyniadau perthnasol o Adran 65(1) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011

65 (1) Mae person wedi ei anghymhwyso rhag cael ei ethol fel, neu fod, yn Gomisiynydd Heddlu a Throsedd os yw'r person-

a) wedi'i anghymhwyso rhag bod yn aelod o Dŷ'r Cyffredin o dan adran 1(1)(d) o Deddf Anghymhwyso Tŷ'r Cyffredin 1975 (aelodau lluoedd yr heddlu ar gyfer ardaloedd yr heddlu yn y Deyrnas Unedig);
b) yn aelod o'r canlynol-
   *(i) Heddlu Trafnidiaeth Prydain*
   *(ii) Cwnstabliaeth Niwclear Sifil*
c) yn gwnstabl arbennig a benodir-

*(i) o dan adran 27 o Ddeddf yr Heddlu 1996 ar gyfer ardal heddlu neu ardal heddlu Llundain;*
*(ii) o dan adran 25 o Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003 (Heddlu Trafnidiaeth Prydain)*

d) yn aelod o staff prif swyddog yr heddlu o unrhyw heddlu a gynhelir ar gyfer ardal heddlu;

e) yn aelod staff i-
*(i) Gomisiynydd Heddlu a Throsedd*
*(ii) Swyddfa'r Maer ar gyfer Plismona a Throsedd;*

f) yn Faer Llundain;

g) yn aelod o Gyngor Cyffredin Dinas Llundain neu aelod o staff o'r Cyngor hwnnw yn ei swyddogaeth fel awdurdod heddlu;

h) yn aelod (yn cynnwys aelod sy'n gadeirydd neu'n brif weithredwr), neu'n aelod staff o-
*(i) Heddlu Trafnidiaeth Prydain;*
*(ii) Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil;*
*(iii) Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu;*
*(iv) yr Asiantaeth Troseddau Difrifol;*
*(v) Yr Asiantaeth Gwella Plismona Cenedlaethol;*

i) dal unrhyw gyflogaeth mewn endid sydd o dan reolaeth y canlynol-
*(i) corff plismona lleol;*
*(ii) unrhyw gorff a grybwyllir ym mharagraff (h);*
*(iii) prif swyddog yr heddlu ar gyfer unrhyw heddlu a gynhelir ar gyfer ardal heddlu neu ardal heddlu Dinas Llundain;*
*(iv) prif swyddog yr heddlu ar gyfer unrhyw heddlu a grybwyllir ym mharagraff (b).*

**Adran 66 Anghymhwyso rhag ei ethol neu ddal swydd fel comisiynydd heddlu a throsedd: ar sail arall**

Dyfyniadau perthnasol o Adran 66 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011

66 (1) Mae person yn anghymwys rhag cael ei ethol fel, neu fod, yn gomisiynydd heddlu a throsedd oni bai bod y person yn bodloni'r amod dinasyddiaeth (gweler adran 68)

(2) Mae person yn anghymwys rhag cael ei ethol fel, neu fod, yn gomisiynydd heddlu a throsedd os yw'r person-

(a) yn anghymwys rhag bod yn aelod o Dŷ'r Cyffredin o dan adran 1(1)(a) i (c) o'r Ddeddf Anghymhwyso Tŷ'r Cyffredin 1975 (barnwyr, gweision sifil, aelodau o'r lluoedd arfog), neu

(b) yn aelod o ddeddfwrfa unrhyw wlad neu diriogaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

(3) Mae person yn anghymwys rhag cael ei ethol fel, neu fod, yn gomisiynydd heddlu a throsedd os:-

(a) yw'r person hwnnw'n destun-
*(i) gorchymyn cyfyngiadau rhyddhad dyledion o dan baragraff 1 o Atodlen 4ZB i Ddeddf Ansolfedd 1986; .*
*(ii) gorchymyn cyfyngiadau rhyddhad dyledion dros dro o dan baragraff 5 o'r Atodlen honno;*
*(iii) gorchymyn cyfyngu methdaliad o dan baragraff 1 o Atodlen 4A i'r; Ddeddf honno;*
*(iv) gorchymyn cyfyngiadau methdalu dros dro o dan baragraff 5 o'r Atodlen honno;*

(c) os yw'r person wedi ei gollfarnu yn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, neu Ynys Manaw, o unrhyw drosedd garcharadwy (wedi dedfrydu neu beidio i gyfnod o garchar mewn perthynas â'r tramgwydd); neu

(d) bod y person yn analluog i gael ei ethol yn aelod o Dŷ'r Cyffredin, neu mae'n ofynnol iddo adael sedd yn Nhŷ'r Cyffredin, o dan Ran 3 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (canlyniadau arferion llwgr neu anghyfreithlon).

**Adran 68 Cyflwr dinasyddiaeth**

Dyfyniad perthnasol o Adran 68 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011

68 (1) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion adran 66.

(2) Bod person yn bodloni amod dinasyddiaeth os yw'r person yn-

(a) ddinesydd y Gymanwlad cymwys,

(b) ddinesydd o Weriniaeth Iwerddon, neu

(c) ddinesydd yr Undeb.

(3) At ddibenion yr adran hon, mae person yn ddinesydd y Gymanwlad cymwys os yw'r person yn ddinesydd y Gymanwlad a-

(a) ddim yn berson sydd angen caniatâd o dan Ddeddf Mewnfudo 1971 i ddod i mewn neu i aros yn y Deyrnas Unedig, neu

(b) yn berson sydd angen caniatâd o'r fath, ond am y tro sydd (neu, yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad, yn cael ei drin i fod) â chaniatâd amhenodol i aros o fewn ystyr y Ddeddf honno.

(4) Ond nid yw person heb ganiatâd i ddod i mewn neu i aros yn y Deyrnas Unedig yn unig yn rhinwedd adran 8 o Ddeddf Mewnfudo 1971 (eithriadau i'r gofyniad i gael caniatâd mewn achosion arbennig) ddim yn ddinesydd y Gymanwlad cymwys yn rhinwedd isadran (3)(a).

(5) Yn yr adran hon mae'r ymadrodd "dinesydd yr Undeb" i'w ddehongli yn unol ag Erthygl 20(1) o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd.